**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddDCC@senedd.cymru

5 Ionawr 2026

Annwyl Mike,

Diolch am adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â'r Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru), a gyhoeddwyd ar 5 Rhagfyr.

Rwy'n croesawu argymhellion ac ystyriaethau'r Pwyllgor o'r Bil. Rwyf wedi nodi ymateb y Llywodraeth yn yr atodiad i'r llythyr hwn. Rwy'n falch o fod wedi derbyn neu dderbyn mewn egwyddor tri argymhelliad.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, er gwybodaeth.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru)**

**Ymateb Lywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**Ionawr 2026**

## Ymatebion i'r argymhellion

Argymhelliad 1 - Cyn y ddadl yng Nghyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet gyhoeddi datganiad ysgrifenedig yn esbonio:

- sut y mae'r Bil yn gydnaws ag Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac Erthygl 1 o Brotocol 1 iddo;
- sut y lluniodd y farn honno, o ystyried nad yw'n ymddangos bod asesiadau effaith perthnasol wedi'u cwblhau'n llawn cyn cyflwyno'r Bil a'u bod yn destun adolygiad parhaus;
- pam y mae'n credu na fydd cwblhau'r asesiadau effaith yn effeithio ar ei farn bod y Bil yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Gwrthod

Mae'r darpariaethau mewn Bil bob amser yn destun asesiad trylwyr o gymhwysedd deddfwriaethol, gan gynnwys hawliau'r Confensiwn, cyn iddynt gael eu cyflwyno.

Ceir canlyniad asesiad Llywodraeth Cymru o gydnawsedd y Bil â hawliau'r Confensiwn, wrth ei gyflwyno, yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil. Mae Gweinidogion yn nodi hefyd bod y Llywydd wedi penderfynu y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Pan dderbynnir gwybodaeth ychwanegol wrth i'r Senedd graffu ar y Bil , bydd Llywodraeth Cymru yn ailasesu darpariaethau'r Bil er mwyn ystyried eu cydnawsedd â Hawliau'r Confensiwn yn sgil yr wybodaeth honno ac, fel y nodir yn fy llythyr dyddiedig 4 Tachwedd, rwyf wedi ymrwymo i ddiweddaru'r asesiad cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau dynol. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol cyn Cyfnod 3.

Argymhelliad 2 - Os cytunir ar egwyddorion cyffredinol y Bil yng Nghyfnod 1, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet osod Datganiadau Ysgrifenedig mewn da bryd cyn y dyddiadau cyflwyno ar gyfer trafodion Cyfnod 2 a Chyfnod 3, gan roi manylion unrhyw ddiweddariadau i'r asesiadau effaith a nodi'n glir unrhyw effaith ar y darpariaethau yn y Bil.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn yn rhannol

Yn fy llythyr dyddiedig 4 Tachwedd ymrwymais i ddiweddaru'r asesiad cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau dynol. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol cyn Cyfnod 3.

Fel arall, bydd yr asesiadau effaith yn cael eu diweddaru pe bai gwybodaeth newydd yn dod i law. Yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ysgrifennu at Bwyllgorau sy'n gyfrifol am graffu ar y Bil, byddaf yn ysgrifennu at Gadeiryddion Pwyllgorau i nodi'r newidiadau a wnaed i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ac a yw'r rhain yn effeithio ar y darpariaethau yn y Bil.

Argymhelliad 3 - Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet gadarnhau pa bersonau sy'n atebol am droseddau a gyflawnir o dan adran 1 o'r Bil a pharagraff 12 o Atodlen 2 i'r Bil, ac, os yw hynny'n briodol, dylai ddiweddaru'r Memorandwm Esboniadol yn unol â hynny.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae adran 1 o'r Bil yn creu dwy drosedd. Bydd person yn cyflawni trosedd os yw'n gweithredu stadiwm neu leoliad tebyg yng Nghymru a'i fod yn ei ddefnyddio, neu ganiatáu iddo gael ei ddefnyddio gan wybod ei fod yn gwneud hynny , i rasio milgwn. Bydd person hefyd yn cyflawni trosedd os yw  ynghlwm wrth drefnu rasio milgwn yng Nghymru.

Mae Atodlen 2 o'r Bil yn creu dwy drosedd. Bydd person yn cyflawni trosedd os yw'n methu â chydymffurfio â gofyniad am gymorth a wneir yn rhesymol o dan baragraff 9(c) o Atodlen 2 neu rwystro rhywun arall yn fwriadol wrth arfer swyddogaeth o dan Atodlen 2.

Mae Pennod 3 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r troseddau o dan y Bil. Byddaf yn ailedrych ar y cynnwys hwn ac yn sicrhau ei fod yn eglur. Bydd Memorandwm Esboniadol diwygiedig yn cael ei osod cyn Cyfnod 3.

Argymhelliad 4 - Os bydd angen, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet gyflwyno gwelliant i'r Bil i roi "y paragraff hwn" yn lle "yr adran hon" ym mharagraff 12(2) o Atodlen 2.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Rwyf yn derbyn yr argymhelliad hwn a byddaf yn cyflwyno gwelliant gan y llywodraeth i ddisodli'r cyfeiriad.

Argymhelliad 5 - Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddarparu ar gyfer adolygiad ôl-weithredu o'r ddeddfwriaeth.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Gwrthod

Er nad yw'r Bil yn cyflwyno systemau na ddyletswyddau adrodd newydd a fyddai'n gofyn am adolygiad ôl-weithredu statudol, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i arferion da wrth werthuso polisi.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi sut y bydd y ddeddfwriaeth yn destun adolygiad ôl-weithredu, a hynny ddim hwyrach na phum mlynedd ar ôl iddi ddod i rym. Bydd yr adolygiad yn monitro effeithiau'r gwaharddiad, yn enwedig effeithiolrwydd gorfodi, canlyniadau anfwriadol, ac effaith ehangach y ddeddfwriaeth. Cafodd hyn ei atgyfnerthu gan y Dirprwy Brif Weinidog yn ei ymateb i'r Pwyllgor ar 4 Tachwedd.

Gan fod y gwaith hwn yn rhan o'r Cynllun Lles Anifeiliaid Cymru ehangach, sydd i'w adolygu yn 2026, gellir ymgorffori ymrwymiad i asesu effeithiau'r ddeddfwriaeth yno hefyd. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod gan lywodraethau'r dyfodol gyfrifoldeb clir i adolygu effaith y ddeddfwriaeth.

Casgliadau

Casgliad 1 - Rydym o'r farn bod dull Llywodraeth Cymru o ddeddfu i wahardd rasio milgwn, mewn sawl ffordd, wedi methu â chyrraedd y safon o ran arfer deddfwriaethol da y byddem fel arfer yn ei ddisgwyl.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Ar 18 Chwefror 2025 penderfynais fynd ar drywydd gwaharddiad ar rasio milgwn ac yna penderfynais y dylid gweithredu'r polisi trwy ddeddfwriaeth sylfaenol. Fe wnes i'r penderfyniad hwn ar ôl ystyried dadleuon yn y Senedd, deisebau cyhoeddus, gweithgarwch ymgyrchu, a thystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymgynghoriad Lles Anifeiliaid. Pwrpas yr ymgynghoriad Lles Anifeiliaid oedd ceisio barn ar drwyddedu gweithgareddau penodol nad oeddent yn destun rheoleiddio. Roedd yr ymgynghoriad Lles Anifeiliaid yn cynnwys dau gwestiwn ar reoleiddio rasio milgwn, drwy gasglu tystiolaeth yn unig. Roedd hyn yn cynnwys cwestiwn ar waharddiad graddol, ond nid oedd yn ymgynghoriad ffurfiol ar y polisi gan nad oedd unrhyw gynigion i'w gwahardd ar adeg yr ymgynghoriad hwn. Serch hynny, fy asesiad o'r wybodaeth sydd ar gael, a phwysau teimlo o blaid gwaharddiad, oedd mai dyma'r amser i symud ymlaen gyda gwaharddiad.

Cyflwynwyd y Bil, y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i'r Llywydd ar gyfer ei phenderfyniad ar 28 Awst yn unol â Rheolau Sefydlog. Yn dilyn penderfyniad y Llywydd y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, cafodd ei osod ochr yn ochr â'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, pan gawsant eu cyflwyno, yn unol â Rheolau Sefydlog.

Casgliad 2 - Fel mater cyffredinol o egwyddor, rydym yn ystyried ei bod yn arfer da na ddylid cyflwyno Bil i'r Senedd fel arfer nes bod yr holl asesiadau effaith perthnasol, cyn belled ag y bo'n ymarferol, wedi'u datblygu'n ddigonol i gynnwys eu canfyddiadau allweddol yn y Memorandwm Esboniadol y mae'n rhaid iddo gyd-fynd â Bil yn unol â Rheol Sefydlog 26.6. Yn yr achos hwn, nid yw'n ymddangos bod yr egwyddor honno wedi'i dilyn yn llawn, ac rydym yn ystyried hynny'n destun gofid.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Roedd y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a osodwyd ochr yn ochr â'r Bil wrth ei gyflwyno yn cynnwys asesiad o'r effaith ac yn fuan ar ôl eu cyflwyno cyhoeddwyd nifer o asesiadau effaith, gan gynnwys bioamrywiaeth, hawliau plant, diogelu data, cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau dynol a'r Gymraeg.

Yn fy llythyr at y Pwyllgor dyddiedig 4 Tachwedd nodais fod yr asesiadau effaith a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Bil yn destun adolygiad parhaus, ac rwyf yn ymrwymedig i ddiweddaru'r asesiad effaith cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau dynol i adlewyrchu'r asesiad a gynhaliwyd mewn perthynas ag Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Byddaf hefyd yn ceisio rhoi rhagor o wybodaeth i Aelodau'r Senedd os bydd gofyn am hynny.